

## **PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 19 Rhagfyr 2017 am 10.30 am ym Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd A Crimmings
Cyngorydd M Norris	Y Cyngorydd J Rosser	Y Cyngorydd R Lewis
Cyngorydd G Hopkins	Y Cyngorydd C Leyshon	

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Ms E Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mrs J Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio

Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.

Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol

Mr R Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol

Ms L Davies, Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch Cymunedol

Mr. M. Phillips, rheolwr gwasanaethau refeniwr

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

dim

#### **87 DATGAN BUDDIANT**

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

#### **88 COFNODION**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017, fel rhai cywir.

#### **89 RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau o'r Cabinet am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu trafod yn ystod blwyddyn y Cyngor 2017 - 18 gan nodi y bydd defnyddio'r rhaglen yn helpu gyda didwylledd a thryloywder y broses gwneud penderfyniadau yn y Cyngor ac yn rhoi rhagor o gyfle i graffu ymlaen llaw.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 o'r adroddiad a dywedwyd wrthyn nhw bod y rhaglen yn ddogfen fyw fel bydd modd ychwanegu neu ddileu adroddiadau yn ystod y flwyddyn.

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd yn gadarnhaol am y manteision o baratoi'r rhaglen waith i gynorthwyo'r Cabinet a'r pwyllgor craffu wrth symud ymlaen a hefyd ail-bwysleisiodd bod y rhaglen waith yn ddogfen 'fyw' ac yn amodol ar newid os oes angen.

#### **PENDERFYNWYD:**

- a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2017-18 a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

90

#### **GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (SYLWEDDAU MEDDWOL GAN GYNNWYS ALCOHOL)**

Rhoddodd Gyfarwyddwr - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned drosolwg i Aelodau o'r adroddiad o'u blaenau sy'n ceisio awdurdod Aelodau i gynnal ymgynghoriad ynglŷn â'r cynnig i gadw'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i reoli achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Rhondda Cynon Taf ac i ymestyn y Gorchymyn i gynnwys dau barth gwaharddedig penodol i reoli'r defnydd o sylweddau meddwol yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr.

Rhoddwyd y rhesymau am y cynnig i'r Aelodau a oedd yn nodi'r angen am y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus a'r rhesymau a gafodd eu nodi i'w ymestyn i gynnwys dwy sail benodol i wahardd pobl mewn mannau cyhoeddus rhag cymryd sylweddau meddwol. Mae hyn er mwyn lleihau'r nifer o achosion a chanfyddiad y cyhoedd o ymddygiad gwrth-gymdeithasol a throseddau cysylltiadol yng nghanol trefi Pontypridd (gan gynnwys Y Graig isaf) ac Aberdâr yn unig, yn dilyn gwerthusiad o'r Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig blaenorol.

Gwnaeth y Dirprwy Aelod Cabinet ar faterion Ffyniant a Lles sylwadau ar y cynnig a chroesawodd yr ymgynghoriad ac ychwanegodd fod y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus wedi dangos ei fod yn offeryn hyblyg ar gyfer materion diogelwch y cyhoedd.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am y rhai a gafodd eu henwi fel y sawl a holwyd yn yr adroddiad a soniodd am bwysigrwydd yr Aelodau Lleol. Croesawodd y Dirprwy Arweinydd yr ymgynghoriad arfaethedig gydag ymddiriedolwyr Parc Coffa Ynysangharad.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos ynglŷn â'r cynnig i gadw'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i reoli achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn Rhondda Cynon Taf ac i estyn y Gorchymyn i gynnwys dau barth gwahardd penodol i reoli defnydd sylweddau meddwol yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr.

- i. Cadw'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus sy'n dynodi'r Fwrdeistref Sirol gyfan yn Barth Yfed a Reolir gyda'r pŵer i gwnstabiliaid yr heddlu a swyddogion awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi'r gorau i yfed ac ildio alcohol neu unrhyw gynhwysyddion alcohol os ydynt yn achosi neu'n debygol o achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol.
  - ii. Amrywio'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i gynnwys Parthau Gwahardd Sylweddau Meddwol yng nghanol trefi Pontypridd (gan gynnwys Y Graig isaf) ac Aberdâr yn unig a fydd yn gwahardd pobl mewn mannau cyhoeddus rhag cymryd sylweddau meddwol, gan gynnwys alcohol a sylweddau eraill sy'n gallu ysgogi neu iselhau'r system nerfol ganolog.
  - iii. Awdurdodi'r defnydd o sylweddau meddwol yn y Parthau Gwahardd yn unig pan fo'r gweithgaredd hwnnw yn cael ei wneud mewn adeilad neu o fewn cwrtil mangre sydd wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol trwy drwydded neu dystysgrif mangre clwb neu ganiatâd sydd wedi'i roi o dan adran 115E o Ddeddf Priffyrdd 1980.
2. Derbyn adroddiad pellach yn manylu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ac unrhyw argymhellion ar gyfer diwygiadau i'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus arfaethedig ar gyfer rheolaethau sylweddau meddwol.

## 91 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – TAI AMLFEDDIANNAETH

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio Aelodau at ei adroddiad sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth y Cabinet fod y dystiolaeth a gafodd ei chasglu gan swyddogion wedi nodi bod crynodiad o Dai Amlfeddiannaeth mewn rhai rhannau o Drefforest, sydd yn ei dro yn arwain at ystod o faterion a all danseilio cydlynid cymdeithasol y gymuned yn yr ardal honno. Parhaodd trwy ychwanegu bod y dystiolaeth hefyd yn dangos bod landlordiaid yn parhau i gynnig creu Tai Amlfeddiannaeth newydd yn yr ardal ac ar hyn o bryd mae'r Cyngor wedi bod yn aflwyddiannus wrth wrthsefyll y cynigion yma drwy'r broses gynllunio ac wedi colli nifer o apeliadau diweddar i'r Arolygiaeth Gynllunio. Cafodd yr Aelodau eu hysbysu bod canllawiau cynllunio atodol yn un offeryn y mae'n bosib i'w ddefnyddio i gynorthwyo wrth ystyried ceisiadau cynllunio o ran gwrthsefyll ceisiadau am Dai Amlfeddiannaeth amhriodol neu Dai Amlfeddiannaeth mewn ardaloedd sydd gyda chrynodiaid uchel eisoes a hefyd yn cynorthwyo i godi safon Tai Amlfeddiannaeth newydd ac arwain unrhyw Dai Amlfeddiannaeth yn y dyfodol i'r lleoliadau mwyaf priodol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at y canllawiau atodol drafft sydd wedi'u paratoi a chynghorodd, er mwyn i'r canllawiau hyn gael eu mabwysiadu gan y Cyngor, bod angen cynnal ymgynghoriad ffurfiol cynhwysfawr pellach.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r swyddogion am y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft, a dywedodd y byddai hi a'r aelod lleol ar gyfer yr ardal yn eu croesawu.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai am y problemau a gafodd eu profi'n flaenrol mewn perthynas â Thai Amlfeddiannaeth oherwydd nad oedd polisi Tai Amlfeddiannaeth ar waith o fewn Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor. Croesawodd yr Aelod Cabinet yr ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ac ychwanegodd y byddai'r canllawiau hefyd yn cynorthwyo i atal y broblem rhag trosglwyddo i ardaloedd lleol eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Holodd Arweinydd y Cyngor ynglŷn â'r cyfnod ymgynghori a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r ymgynghoriad yn rhedeg am gyfnod o 8 wythnos.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cytuno ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft '*Tai Amlfeddiannaeth*' (fel sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yr adroddiad), at ddibenion ymgynghoriad 8 wythnos.

## 92 SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2018/19

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid ei adroddiad a oedd yn ceisio gosod sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 i Aelodau. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa o'r gofyniad statudol i gytuno a gosod Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod cyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr fanylion i'r Aelodau mewn perthynas â'r cyfrifiadau a oedd yn cynghori bod y Sylfaen Treth y Cyngor gros a gafodd ei gyfrifo ar gyfer 2018/19 yn £77,608.22. Ychwanegodd eu bod yn bwriadu rhoi amcangyfrif y byddai'r gyfradd casglu yn 97.5%, a byddai hyn yn rhoi Sylfaen Treth y Cyngor o £75,668.01. Cafodd ei egluro y byddai swm o £75,668 yn cael ei godi i fodloni gofynion cyllideb y Cyngor am bob £1 a gaiff ei godi mewn Treth y Cyngor y flwyddyn nesaf.

Ar ôl ystyried dadansoddiadau Sylfaen Treth y Cyngor fel sy'n cael ei amlinellu yn Atodiad 1 o'r adroddiad, **PENDERFYNODD** y Cabinet :

1. Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd, y swm sydd wedi'i gyfrifo gan y Cyngor fel ei sylfaen dreth net ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19, fydd £75,668.01.
2. Bydd sylfaen dreth 2018/19 ar gyfer pob ardal yn y Fwrdeistref Sirol at ddibenion gosod Treth y Cyngor fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

(D.S. Yn dilyn y penderfyniad, dywedodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet y byddai angen i'r penderfyniad gael ei wneud ar frys gan mai 31 Rhagfyr 2017 oedd y dyddiad cau ar gyfer gosod Sylfaen Treth y Cyngor, ac oherwydd hynny, fyddai dim angen iddo fod yn destun 'galw-i-mewn'.)

## 93 GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR YN OL DISGRESIWN - POBL SY'N GADAEL GOFAL

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid drosolwg i'r Aelodau o'r adroddiad o'u blaenau a roddodd wybodaeth i Aelodau am gyfle i'w ystyried mewn perthynas â Gostyngiad Treth y Cyngor yn ôl Disgresiwn ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal, fel

rhan o gyflawni ei ddyletswydd fel Rhiant Corfforaethol yn rhagweithiol wrth weithredu a chefnogi Pobl (18 - 25 oed) sy'n Gadael Gofal.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at ymgyrchoedd diweddar, gan gynnwys lobio diweddar i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â bod y rhai sy'n gadael gofal yn agored i niwed o ran dyled Treth y Cyngor. Cynghorodd ymhellach bod gan y Cyngor rym yn ôl disgrisiwn o dan Adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i leihau atebolrwydd am Dreth y Cyngor mewn perthynas ag achosion unigol neu ddsbarth(iadau) o achosion a gallai wneud penderfyniad lle nad oes modd cymhwyso gostyngiadau ac eithriadau cenedlaethol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor wedi mabwysiadu polisi o ran ei bwerau o dan Adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac sy'n cael ei alw'n 'Bolisi Gostyngiad Treth y Cyngor yn ôl Disgrisiwn'.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu am egwyddorion y cynllun Gostyngiad i Bobl sy'n Gadael Gofal arfaethedig fel a ganlyn:

- Mae'r person ifanc wedi gadael gofal a rhwng 18 a 25 oed ac nid yw'n cael ei eithrio ar unrhyw sail arall;
- Pan fo person sydd wedi gadael gofal yn RhCT yn symud allan o ardal y Cyngor, gall y disgownt gael ei adennill os bydd yn dychwelyd cyn ei ben-blwydd yn 25 oed.

Daeth y Cyfarwyddwr i gasgliad ei drosolwg trwy gynghori, y byddai'r "Gostyngiad Treth y Cyngor i Bobl sy'n Gadael Gofal", os bydd yn cael ei fabwysiadu, ar gael o ddechrau'r flwyddyn ariannol 2018/19. Dywedodd hefyd na fyddai'r Cyngor yn cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru am yr incwm sy'n cael ei golli.

Croesawodd Aelodau'r Cabinet y cyfle i fwrw ymlaen â'r cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor i Bobl sy'n Gadael Gofal yn ôl disgrisiwn a thynnwyd sylw at y ffaith mai Rhondda Cynon Taf oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i gyflwyno cynllun gostyngiad o'r fath ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal hyd at 25 oed.

Yn dilyn y trafodaethau cadarnhaol ar y gostyngiad yn ôl disgrisiwn **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Fel rhan o gymorth parhaus i bobl sy'n gadael gofal yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Rhiant Corfforaethol, y bydd yn arfer ei bwerau dewisol i roi gostyngiad 100% yn ôl disgrisiwn yn Nhrefn y Cyngor – i bobl 18-25 oed sy'n gadael gofal ac sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol – o 1 Ebrill, 2018.
2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Swyddog Adran 151 y Cyngor i ddiwygio Polisi Gostyngiad Treth y Cyngor yn ôl Disgrisiwn, i gynnwys yr uchod, fel y bo'n briodol.

## 94 **DYMUNIADAU'R NADOLIG**

Dymunodd Arweinydd y Cyngor Nadolig Llawen i bawb oedd yn y cyfarfod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am**

**Cllr A Morgan  
Cadeirydd.**

